



Polisi Lwfansau Llywodraethwyr

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

YSGOL DYFFRYN CONWY

LWFANSAU LLYWODRAETHWYR (CYNLLUN AR GYFER TALU)

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu os yw newidiadau yn cael eu gwneud i'r Rheoliadau.

Datblygwyd y datganiad polisi hwn yn unol â'r Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005. Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi disgrisiwn i Gyrff Llywodraethu i dalu lwfansau o gyllideb flynyddol yr ysgol i lywodraethwyr am gostau maent yn eu hysgwyddo wrth wneud eu dyletswyddau. Cred y Corff Llywodraethu hwn fod talu lwfansau i lywodraethwyr, mewn categorïau penodol a amlinellir isod, yn bwysig er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn y gymuned i fod yn llywodraethwr ac felly mae'n ddefnydd priodol o gronfa'r ysgol. Mae'r eitemau penodol sydd yn dderbyniol yn adlewyrchu'r amcan hwn.

1. Caiff llywodraethwyr hawlio lwfansau cyn belled â bod y lwfansau yn cael eu hysgwyddo wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel llywodraethwr neu gynrychiolydd ac os yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cytuno eu bod yn gyfiawn cyn bod unrhyw gostau ad-daladwy yn cael eu hysgwyddo.
2. Ni chaiff llywodraethwyr hawlio am golli incwm neu enillion.
3. Ni thelir lwfans presenoldeb i lywodraethwyr.
4. Mae pob llywodraethwr neu aelod cysylltiedig yn gymwys i hawlio lwfansau yn unol â'r cynllun hwn.

Treuliau Cymwys

5. Bydd y llywodraethwyr yn gallu hawlio am y canlynol, ar sail pob achos unigol, os ydynt wedi cael caniatâd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr o flaen llaw:
 - Costau gofal plant neu warchod (ac eithrio taliadau i briod/partner presennol/blaenorol)
 - Trefniadau gofal i berthynas oedrannus neu ddibynnol (ac eithrio taliadau i briod/partner presennol/blaenorol)
 - Costau teithio mewn cysylltiad â theithio i gyfarfodydd/cyrsiau hyfforddiant yn unig. Caiff costau eu talu ar gyfradd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gyfredol adeg y teithio.
 - Costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd neu hyfforddiant cenedlaethol yn ddaliadwy ar gyfradd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gyfredol pan gaiff y costau eu hysgwyddo, oni ellir hawlio'r costau hyn gan yr AAL neu ffynhonnell arall.
 - Costau galwadau ffôn, llungopïo, deunydd ysgrifennu, postio ayyb.

Cyfraddau lwfans

6. Telir lwfansau fel a ganlyn:

Galwadau ffôn a phostio: Y gwir gost a ysgwyddwyd.

Teithio:

Telir costau teithio yn unol â chyfraddau cyfredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar adeg y teithio, ni chaiff y gost fod yn fwy na'r cyfraddau a ellir cael eu nodi o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru mewn rheoliadau o dan adran 100 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Cyfradd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw 45c y filltir.

Telir y gwir gost a ysgwyddwyd ar gyfer cludiant cyhoeddus. Fodd bynnag, mewn achosion ble mae mwy nag un math o docyn ar gael, bydd y gyfradd yn gyfyngedig i docyn ail ddsbarth. Mae'r gost am dacs i yn gyfyngedig i £5 y siwrne.

Os oes yna gostau ychwanegol oherwydd bod gwaith llywodraethwr yn golygu cael pryd o fwyd (h.y. brecwast, cinio neu swper) i fwrdd o ardal yr ysgol, bydd y gost yn cael ei ad-dalu am yr eitemau bwyd/diod a brynwyd ar y diwrnod a nodir.

Meini Prawf ar gyfer hawlio

7. Mae rhaid i bob hawliad gael ei gyflwyno i'r Pennaeth ar y ffurflen amgaeedig o fewn mis o ysgwyddo'r gost (ac eithrio galwadau ffôn).
8. Mae rhaid cynnwys derbynebau i gefnogi hawliad am ad-daliad e.e. tocyn bws, bil ffôn, derbynneb taci neu dderbynneb til.
9. Wrth hawlio am gost galwadau ffôn dylid darparu bil ffôn wedi ei eitemeiddio ac amlygu'r galwadau perthnasol.

Systemau Ariannol

10. Dylai llywodraethwyr sy'n dymuno hawlio costau o dan y trefniadau hyn yn gyntaf ofyn am ganiatâd Cadeirydd y Llywodraethwyr ac yna llenwi ffurflen hawlio (ar gael gan y Clerc) a'i ddychwelyd ynghyd â derbynebau o fewn pythefnos i'r dyddiad yr ysgwyddwyd y costau. Bydd y ffurflen yna'n cael ei basio ymlaen i Gadeirydd y Llywodraethwyr ei gymeradwyo.
11. Bydd system arferol yr ysgol ar gyfer awdurdodi a phrosesau costau teithio yn berthnasol i geisiadau a wneir o dan y cynllun hwn.

Bydd hawliau yn destun i archwiliad annibynnol a gallent gael eu hymchwilio gan Gadeirydd y Llywodraethwyr os ydynt yn ymddangos yn ormodol neu anghyson.

YSGOL DYFFRYN CONWY

Ffurflen Hawlio Costau i Lywodraethwyr

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Dyddiad: _____

Dyddiad yr hawliad: _____

Rwyf wedi cynnwys derbynebau perthnasol i gefnogi fy hawliad. Os ydych yn gwneud hawliad am gostau teithio mae angen llenwi ffurflen hawlio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chynnwys derbynneb petrol. Bydd ad-daliad yn cael ei dalu ar raddfa gyfredol y cyngor adeg gwneud y daith.

Costau gofal plant/ gwarchod	
Trefniadau gofal ar gyfer perthynas oedrannus neu ddibynnol	
Teithio i gyfarfodydd/cyrsiau	
Teithio/cynhaliaeth yn gysylltiedig â chyfarfodydd neu hyfforddiant cenedlaethol	
Galwadau ffôn	
Postio	
Llungopio	
Deunydd ysgrifennu	
Arall (rhowch fanylion)	

Cyfanswm y treuliau sy'n cael eu hawlio: £ _____

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Cymeradwywyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr:

Llofnod: _____

Dyddiad: _____